



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Ymateb Llywodraeth Cymru i
adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Ysgolion**

ISBN digidol 978 1 4734 2211 7
© Hawlfraint y Goron Medi 2014
WG23090

Adran 4: Model llywodraethu

Argymhelliad 1- (Tudalen 17): Mabwysiadu model 'Rhanddeiliaid a Mwy' o fewn strwythur cyrff llywodraethu. O dan y model hwn, rydym yn cadw'r cyfraniad gwerthfawr a wneir gan yr amrywiaeth o randdeiliaid ac yn awgrymu bod yr agwedd 'a Mwy' yn rhoi'r hyblygrwydd a'r rhyddid i gyrrff llywodraethu recriwtio llywodraethwyr ychwanegol ar sail anghenion sgiliau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Mae cynlluniau ar waith fel rhan o'r Cynllun Gwella Ysgolion i adolygu'r fframwaith llywodraethu y mae ysgolion yn ei ddilyn, gyda'r nod o'i wneud yn fwy hyblyg er mwyn galluogi cyrff llywodraethu i recriwtio llywodraethwyr sydd â sgiliau sy'n diwallu eu hanghenion. Y nod yw rhoi mwy o ryddid i gyrrff llywodraethu ysgolion bennu eu cyfansoddiad eu hunain fel eu bod yn gallu recriwtio llywodraethwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir. Byddai ysgolion yn penderfynu ar y cydbwysedd cywir o rieni, staff a grwpiau eraill gan ganolbwyntio'n arbennig ar sgiliau a phrofiad.

Ynghyd â hyn, mae'r hyfforddiant gorfodol rydym wedi ei gyflwyno ar gyfer llywodraethwyr a chadeiryddion yn y meysydd hynny a gaiff yr effaith fwyaf yn helpu i sicrhau bod llywodraethwyr presennol yn meithrin y sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu rolau'n effeithiol

Goblygiadau

Er mwyn diwygio cyfansoddiad cyrff llywodraethu a meini prawf cymhwyso ar gyfer categorïau gwahanol o lywodraethwyr byddai angen diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Byddai unrhyw gynigion o'r fath yn destun ymgynghoriad.

Adran 4B: Strwythur cyrff llywodraethu ysgolion

Cyflwynir Argymhelliad 2 mewn chwe rhan;

Argymhelliad 2a - (tudalen 21): Mae strwythur cyrff llywodraethu yn hyblyg, gyda rhwng naw a 21 o lywodraethwyr yn aelodau

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn yn rhannol. Rydym yn ymrwymedig i gael fframwaith llywodraethu hyblyg er mwyn galluogi cyrff llywodraethu i recriwtio llywodraethwyr i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu effeithiolrwydd cael o leiaf naw llywodraethwr yn enwedig os bydd cyrff llywodraethu yn parhau i fod yn gyfrifol am swyddogaethau diswyddo staff.

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Er ein bod yn cytuno bod 21 o lywodraethwyr yn uchafswm addas ar gyfer ysgol nad yw wedi'i ffederaleiddio (*dyma uchafswm maint corff llywodraethu o dan reoliadau presennol*), dywed profiad wrthym fod corff llywodraethu sydd ond yn cynnwys naw llywodraethwr yn rhy fach i gyflawni holl gyfrifoldebau corff llywodraethu yn effeithiol, yn enwedig delio â materion staffio cymhleth.

Mae gwrandawriadau disgyblu staff yn gofyn am o leiaf chwe llywodraethwr dilwgr ar bwyllgorau disgyblu a diswyddo staff. Ni chaiff y pennaeth fod yn aelod o'r pwyllgorau hyn ac mae'n anarferol i lywodraethwyr sy'n athrawon ac nad ydynt yn athrawon fod yn aelodau. Byddai

hepgor y tri llywodraethwr hyn o gorff llywodraethu o naw ond yn gadael chwe llywodraethwr ar y pwyllgorau hyn. Byddai'r nifer yn lleihau ymhellach petai unrhyw un o'r chwe llywodraethwr sy'n weddill yn llwgr. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'n rhaid i'r corff llywodraethu fynd ati i weithio gyda'r ALI ac eraill er mwyn penodi llywodraethwyr newydd i sicrhau bod llywodraethwyr dilwgr ar gael.

Gellir wynebu problemau tebyg ar gyrff llywodraethu bach lle mae llywodraethwyr sy'n athrawon ac yn staff yn datgan gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â thrafod strwythurau/dyfarniadau cyflog.

Yn ein barn ni, felly, er mwyn sicrhau bod cyrff llywodraethu yn gallu cyflawni eu holl gyfrifoldebau'n effeithiol mae angen o leiaf 12 o aelodau ar gyrff llywodraethu.

Goblygiadau

Er mwyn diwygio aelodaeth cyrff llywodraethu byddai angen diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Mae swyddogion eisoes yn ymrwymedig i adolygu'r strwythur llywodraethu y mae ysgolion yn ei ddilyn fel rhan o'r Cynllun Gwella Ysgolion.

Argymhelliad 2b - (tudalen 21): Mae gan gorff llywodraethu ffederasiwn rhwng naw a 25 o lywodraethwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gwrthod

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Yn ein barn ni, nid yw corff llywodraethu o naw yn ymarferol ar gyfer ffederasiwn o ysgolion, yn enwedig ffederasiwn mawr o chwe ysgol. Pan fydd ysgolion yn ffedereiddio o dan un corff llywodraethu, gwyddom fod yr ysgolion dan sylw i ddechrau'n awyddus i sicrhau tegwch a chydaddoldeb o ran aelodau'r corff llywodraethu ffederal er mwyn sicrhau bod safbwyntiau eu hysgol yn cael eu cynrychioli. Mae rheoliadau ffedereiddio presennol 2010 a rheoliadau newydd 2014 yn darparu ar gyfer hyn, drwy gynnwys gofyniad am o leiaf un rhiant-lywodraethwr o bob ysgol yn y ffederasiwn.

Mewn ffederasiwn mawr, pan gaiff pob categori o lywodraethwr ei gynnwys h.y. rhiant, pennaeth, ALI, staff, cymuned ac ati, ni fyddai modd cael isafswm o naw llywodraethwr oherwydd byddai'r nifer hon yn llawer uwch. O ganlyniad, pennwyd isafswm o 15 o lywodraethwyr ar gorff llywodraethu ffederal yn y rheoliadau. Gall corff llywodraethu ffederal bach o naw llywodraethwr fod yn ymarferol ar gyfer ffederasiwn bach iawn o ddwy neu dair ysgol wledig fach, ond o ystyried y pryderon a amlinellwyd yn 1(a) uchod, ni fyddem yn annog hyn.

Am y rheswm hwn, cynigiwn y dylid cadw at o leiaf 15 o lywodraethwyr fel y nodir yn rheoliadau ffedereiddio presennol 2010 a rhai newydd 2014. O ran yr uchafswm, mae rheoliadau 2014 yn cynyddu'r nifer hon i 27 o lywodraethwyr er mwyn darparu ar gyfer y ffederasiwn o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac a reolir er mwyn cadw'r gofyniad cyfreithiol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr gadw uchafswm o lywodraethwyr sylfaen.

Goblygiadau

Os derbynnir yr argymhelliad hwn, bydd angen diwygio Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 y disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Mai sy'n pennu isafswm o 15 o lywodraethwyr ac uchafswm o 27 o lywodraethwyr. Byddai'n cymryd rhwng naw a 12 mis i ddiwygio rheoliadau ffedereiddio 2014.

Argymhelliad 2c - (tudalen 21): Dylai'r cworwm a argymhellir gynnwys o leiaf saith llywodraethwr neu 50%, p'un bynnag sydd fwyaf
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyn mewn egwyddor.
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
<p>Cefnogwn yr egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn ond mae gennym bryderon ynghylch p'un a allai'r cworwm hwn gael ei gyflawni'n ymarferol mewn ysgolion bach iawn.</p> <p>Mae'r ddamcaniaeth sy'n sail i'r syniad o gael mwy o lywodraethwyr er mwyn herio a gwneud penderfyniadau yn gadarn. O dan y rheoliadau presennol, ceir isafswm o naw llywodraethwr ar gorff llywodraethu (mewn ysgolion cymunedol bach iawn) ac mae'r cworwm yn 50% wedi'i dalgrynnu. Mae hyn yn golygu mai dim ond pum llywodraethwr sydd eu hangen i wneud penderfyniadau ynghylch busnes llywodraethu. Gellid ystyried bod y nifer hon yn rhy fach i wneud penderfyniadau mawr ar faterion fel cynllun datblygu'r ysgol, staffio a chyflogau a chyllid.</p> <p>Mae'r argymhelliad hwn yn mynd i'r afael â phryder y Grŵp nad oes digon o lywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau pwysig oherwydd byddai angen cworwm o saith llywodraethwr o leiaf. Byddai'r cworwm hwn yn gwneud cais am un corff llywodraethu â 13 o lywodraethwyr neu lai. Ar gyfer cyrff llywodraethu â 14 o lywodraethwyr neu fwy byddai'r gofyniad i gael cworwm o 50% yn gymwys. Byddai hyn yn cynnwys cyrff llywodraethu ffederal gan fod angen o leiaf 15 o lywodraethwyr.</p>
Goblygiadau
<p>Er mwyn derbyn yr argymhelliad hwn byddai angen diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Er ein bod yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, petai'n cael ei fabwysiadu gallai atal rhai cyrff llywodraethu bach, os nad ydynt wedi'u ffedereiddio, rhag cwblhau eu gwaith, cyflawni targedau a gwneud gwaith arferol oherwydd ni fyddent bob amser yn gallu sicrhau bod o leiaf saith llywodraethwr yn mynychu cyfarfodydd. Gallai ffedereiddio cyrff llywodraethu helpu oherwydd byddai ysgolion yn rhannu corff llywodraethu a fyddai, o dan y rheoliadau ffedereiddio, yn cynnwys o leiaf 15 o lywodraethwyr a byddai cworwm o 50% o leiaf yn gymwys. Ystyrir yr argymhelliad hwn a'i oblygiadau ymhellach fel rhan o'r adolygiad a gynllunnir o'r fframwaith llywodraethu y mae ysgolion yn ei ddilyn.</p>

Argymhelliad 2d - (tudalen 21): Ni ddylai mwy na thraean o aelodau corff llywodraethu fod yn rhieni nac yn aelodau o staff yr ysgol.
Ymateb Llywodraeth Cymru
Gwrthod
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
<p>Y rhesymeg sy'n sail i'r argymhelliad hwn yw dyhead y grŵp i gyrff llywodraethu allu recriwtio llywodraethwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol ym meysydd cyllid neu adnoddau dynol er enghraifft. Cred y bydd cyfyngu ar nifer y rhieni ar gorff llywodraethu yn darparu'r hyblygrwydd i wneud hyn.</p> <p>Yr awgrym yw na ddylai mwy na thraean o aelodau corff llywodraethu fod yn rhiant-lywodraethwyr. Hynny yw na all rhieni gyfrif am fwy na thraean o'r aelodau mewn unrhyw gategori o lywodraethwyr. Nid yw hyn yn ateb ymarferol. O dan y rheoliadau presennol, mae rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol hefyd yn gymwys i ddod yn llywodraethwr sy'n athro neu'n aelod o staff os oes ganddo blentyn sy'n ddisgybl yn yr ysgol lle mae'n gweithio. Hefyd, gallai rhiant ddod yn llywodraethwr ALI, llywodraethwr cymunedol, llywodraethwr cymunedol ychwanegol, llywodraethwr sylfaen neu'n llywodraethwr cynrychioliadol.</p> <p>Mae'r argymhelliad hefyd yn anghyson â'n nod i roi mwy o hyblygrwydd i gyrff llywodraethu er</p>

<p>mwyn recriwtio llywodraethwyr sy'n diwallu eu hanghenion, sy'n cynnwys penderfynu ar y cydbwysedd priodol o rieni, staff a grwpiau eraill.</p>
<p>Goblygiadau</p> <p>Byddai derbyn yr argymhelliad hwn yn gofyn inni ddiwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 er mwyn atal rhieni rhag cael eu penodi neu eu hethol i unrhyw gategori o lywodraethwr ar ôl cyrraedd y cwota o draean. Gallai derbyn yr argymhelliad hwn arwain at oblygiadau sylweddol iawn o ran recriwtio a chadw llywodraethwyr yng Nghymru yn y dyfodol. Byddai'n cyfyngu ar y meini prawf cymhwyso ar gyfer sawl categori o lywodraethwyr a allai fod yn drafferthus i'w weithredu a'r sgil-effaith yw y gallai fod yn anos recriwtio a llenwi swyddi gwag.</p> <p>Byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar waith y consortia/awdurdodau lleol oherwydd bydd yn gymhleth iawn a bron yn amhosibl i'w fonitro, ei reoli a'i weithredu. Byddai'r newidiadau hyn hefyd yn gofyn am ddiwygio rheoliadau ffedereiddio 2014.</p>

<p>Argymhelliad 2e - (tudalen 21): Ni ddylai athrawon sydd â phlant mewn ysgol gyflawni rôl rhiant-lywodraethwr ar y corff llywodraethu.</p>
<p>Ymateb Llywodraeth Cymru</p> <p>Derbyn mewn egwyddor</p>
<p>Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg</p> <p>Cefnogwn yr argymhelliad i beidio â chaniatáu i athrawon nac aelodau o staff sydd â phlant yn yr un ysgol lle maent yn gweithio ddod yn rhiant-lywodraethwyr. Mae cyfraith gyfredol yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 yn caniatáu hyn gan fod pob rhiant disgybl cofrestredig mewn ysgol yn gymwys i ddod yn rhiant-lywodraethwr. Fodd bynnag, gall y trefniant hwn achosi problemau mewn ysgolion bach sydd â chyrff llywodraethu bach gan mai aelodau o staff fel athro-lywodraethwyr, rhiant-lywodraethwyr neu staff-lywodraethwyr eraill sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r corff llywodraethu. Gall hyn olygu ei bod yn anodd iawn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â materion staffio neu gyflogau oherwydd byddai angen i'r llywodraethwyr hyn ddatgan buddiant a pheidio â chymryd rhan mewn trafodaethau na phleidleisio. Byddai hefyd yn anodd i gorff llywodraethu ymdrin â phrosesau disgyblu staff neu gwynion staff, eto oherwydd y gwrthdaro buddiannau posibl. Codir cwestiwn hefyd ynghylch pa mor annibynnol neu heriol y gallai corff llywodraethu fod tuag at y pennaeth a'r uwch dîm arwain os yw'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn aelodau o staff.</p> <p>Petai'r penderfyniad yn cael ei wneud i atal athrawon sydd â phlant yn yr ysgol rhag cyflawni rolau rhiant-lywodraethwyr ar y corff llywodraethu, gallai arwain at bryderon na fydd ysgolion mewn ardaloedd gwledig neu amddifad yn gallu recriwtio digon o lywodraethwyr. Mae cyfraith gyfredol eisoes yn darparu, os na ellir llenwi swyddi gwag rhiant-lywodraethwyr drwy etholiadau, y gall y corff llywodraethu benodi rhiant-lywodraethwyr i'r corff llywodraethu. Petai corff llywodraethu yn cael ei hun yn y sefyllfa hon, byddai hefyd yn gyfle iddo benodi rhiant-lywodraethwyr sydd â sgiliau penodol er mwyn gwneud y corff llywodraethu yn fwy effeithiol.</p>
<p>Goblygiadau</p> <p>Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor, byddai angen inni drafod ei goblygiadau gyda Gwasanaethau Cyfreithiol oherwydd gallai ddadfreinio rhai rhieni rhag dod yn rhiant-lywodraethwyr. Serch hynny, ym marn swyddogion, mae manteision cael corff llywodraethu a allai gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol a herio uwch aelodau o staff heb ofni nad oes cworwm neu y'i cyfaddawdir yn drech na'r anfanteision posibl.</p>

<p>Argymhelliad 2f - (tudalen 21): Caiff holl aelodau'r corff llywodraethu eu penodi'n ffurfiol ganddo.</p>
<p>Ymateb Llywodraeth Cymru</p> <p>Gwrthod</p>

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Mae'r argymhelliad hwn yn ymateb i bryder y Grŵp y dylai cyrff llywodraethu allu cael gwared ar lywodraethwr mewn amgylchiadau eithafol. Gwnaed yr argymhelliad hwn er mwyn ymdrin â phryder y Grŵp y dylai corff llywodraethu allu rheoli ei aelodau drwy gael gwared ar lywodraethwyr 'twyllodrus' a all amharu ar gorff llywodraethu a'i atal rhag gweithio mewn cytgord. O dan gyfraith addysg, gall corff llywodraethu ond cael gwared ar y llywodraethwyr hynny a benodir ganddo h.y. llywodraethwyr cymunedol, ac mae'n ddibynnol ar ewyllys da'r corff penodi (h.y. awdurdodau lleol/rhieni ac ati) i gael gwared ar lywodraethwyr eraill a benodir ganddo. Os bydd y corff llywodraethu yn cysylltu â'r corff penodi gyda chais i gael gwared ar lywodraethwr a'i fod yn gwrthod gwneud hynny, yr unig opsiwn fydd ar gael i'r corff llywodraethu fydd diarddel y llywodraethwr dan sylw, gan greu swydd wag. Ni ellir cael gwared ar lywodraethwyr etholedig ond gellir eu diarddel.

Er mwyn i'r corff llywodraethu benodi pob llywodraethwr, rhaid bod 'craidd' o lywodraethwyr ar gael i wneud hyn. Er enghraifft, caiff llywodraethwyr cymunedol eu penodi gan y corff llywodraethu lle gwnaed yr holl etholiadau a phenodiadau angenrheidiol eisoes h.y. y llywodraethwyr etholedig a'r llywodraethwyr a benodwyd gan yr awdurdod lleol. Petai'r corff llywodraethu yn penodi'r holl lywodraethwyr - pwy fyddai'n gwneud hyn. Yr unig beth sy'n gyson yw bod y pennaeth yn llywodraethwr ex officio ac nid yw rheoliadau llywodraethu ysgolion 2005 yn caniatáu i unigolyn na phwyllgor bennu aelodaeth.

Er mwyn ymdrin â phryderon cychwynnol y Grŵp y dylai corff llywodraethu allu rheoli ei aelodaeth, un ateb posibl fyddai diwygio rheoliadau llywodraethu ysgolion 2005 er mwyn galluogi'r corff llywodraethu i gael gwared ar unrhyw lywodraethwr, hyd yn oed y rhai a gaiff eu hethol neu eu penodi gan gorff arall, ond dim ond ar ôl iddo eu diarddel yn gyntaf. Yna byddai'r corff llywodraethu yn dilyn yr un broses a ddefnyddir ganddo i gael gwared ar lywodraethwyr cymunedol a nodir yn rheoliadau llywodraethu ysgolion 2005 sy'n rhoi cyfle i'r llywodraethwr y ceir gwared arno gyflwyno ei achos cyn bwrw pleidlais.

Petai'n cael ei weithredu, byddai'r cynnig hwn yn rhoi mwy o reolaeth i'r corff llywodraethu, ond gallai fod yn ddadleuol oherwydd byddai'n golygu na fyddai modd i'r sawl sy'n ethol neu'n penodi llywodraethwyr apelio yn erbyn penderfyniad y corff llywodraethu i gael gwared arnynt.

Goblygiadau

Os gwrthodir cynnig y Grŵp i'r corff llywodraethu allu penodi pob llywodraethwr, ond y caiff y trefniadau amgen fel y'u disgrifir eu gweithredu, byddai'n rhoi rheolaeth i'r corff llywodraethu. Fodd bynnag, byddai hyn yn ddadleuol oherwydd byddai'n golygu y gallai'r corff llywodraethu gael gwared ar lywodraethwyr o blith rhieni, athrawon a staff a etholir. Nid yw hyn yn bosibl o dan ddeddfwriaeth gyfredol. Byddai derbyn yr argymhelliad hwn yn mynd yn groes i'r egwyddor bod cyrff llywodraethu yn atebol i'r corff sy'n eu penodi. Byddai hefyd yn golygu na fyddai gan y sawl sy'n penodi neu'n ethol llywodraethwyr ar hyn o bryd unrhyw reolaeth dros b'un a geir gwared ar eu cynrychiolwyr ac ni fyddai cyfle i apelio. Mae galluogi cyrff llywodraethu i gael gwared ar lywodraethwyr yn y pen draw yn rhoi'r rhyddid iddynt ddelio â 'llywodraethwyr twyllodrus' yn fwy effeithiol a llenwi'r swydd wag. Petai cyrff llywodraethu yn cael y pŵer hwn byddai angen i'r amgylchiadau penodol yn ymwneud â chael gwared ar lywodraethwyr gael eu pennu mewn rheoliadau.

Gwrthodir yr argymhelliad ei hun ond bydd angen i'r opsiwn amgen a awgrymir, os caiff ei gefnogi, gael ei drafod â Gwasanaethau Cyfreithiol oherwydd byddai'n gofyn am newid rheoliadau llywodraethu ysgolion 2005 ac o bosibl Adran 19 o Ddeddf Addysg 2002.

Adran 4C: Rôl strategol ac atebolrwydd

Cyflwynir argymhelliad 3 mewn chwe rhan:

Argymhelliad 3a - (tudalen 25): Dylai cyrff llywodraethu gyflwyno 'Adroddiad Blynyddol' ar berfformiad yr ysgol
Ymateb Llywodraeth Cymru
Gwrthod. Ar waith eisoes. Rhaid i berfformiad gael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i rieni.
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
<p>Mae eisoes yn ofynnol i gyrff llywodraethu lunio adroddiad blynyddol yn unol â Deddf Addysg 2002. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gwmpasu materion penodol i'w nodi mewn rheoliadau. Mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr Adroddiad, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• y wybodaeth gymharol ddiweddaraf am berfformiad yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a diwedd cyfnodau allweddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a DEWi;• y Crynodeb diweddaraf o Berfformiad yr Ysgol Uwchradd yn achos ysgol sydd â disgyblion 15 oed ar ddechrau blwyddyn adrodd yr ysgol. <p>Rhaid i gopïau o'r adroddiad gael eu rhoi i holl rieni disgyblion cofrestredig a bod ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol. Gall rhieni a'r gymuned ehangach gael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad ysgol ar wefan lwyddiannus Fy Ysgol Leol sy'n galluogi rhieni i weld data ar berfformiad ar lefel hynod fanwl.</p> <p>Er nad yw'n rhan o'r argymhelliad, roedd y Grŵp hefyd yn awyddus i weld yr Adroddiad Blynyddol ar gael yn ehangach i randdeiliaid o fewn cymuned yr ysgol ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r awgrym hwn ac ystyriwn ei fod yn rhoi cipolwg defnyddiol a thryloyw ar nodau a chyflawniadau'r ysgol.</p> <p>Mae Deddf Addysg 2002 yn caniatáu rheoliadau i bennu pwy y mae'n rhaid i gorff llywodraethu roi copïau o'i adroddiad blynyddol iddynt a bod yn rhaid i'r adroddiad fod ar gael i'w archwilio yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu roi copïau o'r adroddiad i rieni. Gellid diwygio'r rheoliadau er mwyn ehangu'r sawl sy'n ei gael. Fodd bynnag, o ran cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar wefan yr ysgol, byddai hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol.</p>
Goblygiadau
<p>Nid oes unrhyw oblygiadau mewn perthynas â'r argymhelliad.</p> <p>Petai cytundeb i ehangu'r sawl sy'n derbyn yr adroddiad, byddai angen diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 a allai gymryd tua naw mis.</p> <p>Gallai cyflwyno Bil i gwmpasu unrhyw ofyniad i gyhoeddi'r adroddiad ar wefan ysgol gymryd rhwng 18 mis a dwy flynedd oherwydd byddai angen inni nodi Bil addas.</p>
Argymhelliad 3b - (tudalen 25): Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o gynnwys Adroddiad Blynyddol corff llywodraethu
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyn
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Fel y nodir yn 3.a, o dan Ddeddf Addysg 2002, mae Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Er mwyn sicrhau bod adroddiad y llywodraethwyr yn gyfredol ac yn berthnasol, caiff y rheoliadau eu hadolygu bob hyn a hyn. Gan mai yn 2011 y cyhoeddwyd y rheoliadau diwethaf o ran Adroddiadau Blynyddol, mae angen eu hadolygu nawr.

Goblygiadau

Gall yr adolygiad o gynnwys Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 arwain at ddiwygio'r rheoliadau y byddai'n rhaid ymgynghori yn ei gylch. Fel y soniwyd yn 3(a), gallai gymryd tua naw mis i gwblhau hyn a gwneud y rheoliadau diwygiedig.

Argymhelliad 3c - (tudalen 25): Penaethiaid i lunio adroddiad tymhorol i'w ddsbarthu cyn cyfarfodydd y corff llywodraethu y dylid ei gyflwyno yn y cyfarfodydd. Dylai gynnwys sefyllfa bresennol yr ysgol o ran nodau ac amcanion; ystyriaeth feirniadol o gyflawniadau'r ysgol tuag at gyflawni'r nodau ac amcanion hynny; adolygiad o ddata ar berfformiad; lefelau absenoldeb a phresenoldeb a materion staffio

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Mae swyddogion yn adleisio pryder y Grŵp nad yw llawer o benaethiaid bob amser yn rhoi adroddiad ysgrifenedig i lywodraethwyr yn eu cyfarfod tymhorol, gan ddewis rhoi diweddariad ar lafar yn lle hynny. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw gysondeb na rheolaeth dros y wybodaeth a roddir i'r llywodraethwyr ac mae penaethiaid yn 'rhydd i ddewis' pa wybodaeth a rennir ganddynt. Roedd y Grŵp am reoleiddio hyn a'i gwneud yn ofynnol i benaethiaid roi adroddiad ysgrifenedig i lywodraethwyr ym mhob cyfarfod corff llywodraethu llawn y dylid ei ddsbarthu gyda'r papurau a'r agendâu eraill o leiaf bum diwrnod ymlaen llaw. Roedd hefyd am bennu cynnwys yr adroddiad hwnnw er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae gan gyrff llywodraethu eisoes yr hawl i ofyn i benaethiaid am adroddiadau. Mae'r gofynion presennol yn Adran 30 (4) o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid roi adroddiadau i gyrff llywodraethu ac ALLau sy'n cwmpasu cyflawni eu swyddogaethau fel y gofynnir amdano gan y corff llywodraethu neu'r ALI. Noda Adran 30 (5), lle y gofynnir i benaeth am adroddiad, ei bod yn rhaid iddo ddarparu copi. Y goblygiad felly yw mai copïau papur fydd yr adroddiadau hyn ac nid rhai ar lafar.

Goblygiadau

Gan fod y pŵer yn bodoli eisoes, bydd swyddogion yn ystyried rhoi canllawiau i gyrff llywodraethu er mwyn nodi'n gliriach y mathau o wybodaeth y dylai llywodraethwyr ysgolion fod yn gofyn amdanynt. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth Cymru am nodi beth y dylid ei gynnwys yn adroddiad y pennaeth, byddai hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol a allai gymryd rhwng 18 mis a dwy flynedd.

Argymhelliad 3d - (tudalen 25): Mae angen i lywodraethwyr chwarae mwy o ran yn arolygiad ffurfiol yr ysgol

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Estyn sy'n gyfrifol am drefniadau gweithredol arolygiadau ond hyd y gwŷr swyddogion, nid oes unrhyw reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr Estyn ond gyfarfod ag un llywodraethwr (cadeirydd y llywodraethwyr fel arfer), er y nodir y disgwyliad y gwnaiff Estyn gyfarfod ag un llywodraethwr yng nghanllawiau arolygu Estyn. Fodd bynnag, gwneir dyfarniadau ynghylch llywodraethwyr gan y fîm arolygu a byddai angen iddynt gymryd digon o dystiolaeth er mwyn

gwneud y dyfarniad hwn.
Goblygiadau
Mater i Estyn yw hwn ond gallai swyddogion drafod ag Estyn p'un a fyddai'n barod i gyfarfod â nifer gyfyngedig o lywodraethwyr yn lle un yn unig.

Argymhelliad 3e - (tudalen 25): Mae Estyn yn adolygu'r agweddau a fernir gan Ofsted mewn arolygiad ysgol ac yn ymateb i'r Gweinidog yn uniongyrchol ynghylch priodolrwydd hyn fel rhan o'r gwaith o arolygu ysgolion
Ymateb Llywodraeth Cymru
Gwrthod
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Aeth y Grŵp ati i gymharu'r meini prawf a ddefnyddir gan Ofsted er mwyn gwneud dyfarniadau ynghylch ysgolion yn ystod arolygiadau ac roedd o'r farn bod y meini prawf hyn yn fwy penodol ac yn canolbwyntio'n fwy ar wella ysgolion na meini prawf presennol Estyn.
Goblygiadau
Mae Estyn yn arolygiaeth annibynnol ac, fel y cyfryw, hi sy'n pennu'r model a'r fframwaith arolygu a ddefnyddir ganddi ac yn sicrhau eu bod yn addas at y diben. Ni chânt eu llywio na'u pennu gan Lywodraeth Cymru ac ni fyddai'n briodol inni awgrymu newidiadau.

Argymhelliad 3dd - (tudalen 25): Dylai gwefan 'Fy Ysgol Leol' gynnwys tabiau ychwanegol sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am ysgol.
Ymateb Llywodraeth Cymru
Gwrthod - Mae gwefan Fy Ysgol Leol wedi'i datblygu gyda rhieni mewn golwg. Setiau Data Craidd Cymru Gyfan yw'r brif ffynhonnell ddata i lywodraethwyr o hyd.
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Caiff gwefan Fy Ysgol Leol ei hadolygu'n gyson ac ystyrir gwybodaeth newydd. Er ein bod yn croesawu'r defnydd o Fy Ysgol Leol gan lywodraethwyr, fe'i datblygwyd gyda rhieni mewn golwg. Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ddylai barhau i fod yn brif ffynhonnell ddata i Gadeiryddion Llywodraethwyr.
Ni fwriadwyd i Fy Ysgol Leol gymryd lle Setiau Data Craidd Cymru Gyfan, sy'n darparu gwybodaeth fanwl iawn am berfformiad ysgol. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i becynnau data ysgolion fod ar gael a chael eu defnyddio gan ysgolion a'u cyrff llywodraethu at ddibenion hunanwerthuso a phennu targedau. Yn wir, rhaid i'r corff llywodraethu bennu targedau yn seiliedig ar ddadansoddiad ysgol o'r setiau data. At hynny, y setiau data yw'r brif ffynhonnell ddata a ddefnyddir ar gyfer arolygiadau ysgol ac, felly, mae'n bwysig bod llywodraethwyr yn trafod y cwestiynau a godir gan y data gyda'r pennaeth. Mae hyfforddiant gorfodol llywodraethwyr yn canolbwyntio ar y defnydd a wneir o'r setiau data a sut y'u dehonglir.
At hynny, mae'r holl ddata ar berfformiad a geir yn y setiau data ar gael i'r ysgol dan sylw, ond ar gyfer ysgolion bach, neu garfannau bach sy'n astudio pynciau penodol mewn ysgolion mwy, caiff cryn dipyn o'r data ei guddio ar wefan Fy Ysgol Leol. Y rheswm dros hyn yw y gall data o garfannau bach ddatgelu gwybodaeth am ddisgyblion unigol ac mae'n rhaid eu cuddio er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Am y rheswm hwn, nid yw'r wefan yn rhoi darlun cyflawn o berfformiad ar gyfer nifer fawr o ysgolion yng Nghymru.
Goblygiadau
Dim goblygiadau

Adran 5: Rhannu cyfrifoldebau o fewn y system addysg bresennol

Argymhelliad 4 - (tudalen 26): Mae angen eglurder ynghylch cyfrifoldebau penaethiaid a chyrrff llywodraethu gan ganolbwyntio'n benodol ar benodi a diswyddo staff. Mae angen i'r mater hwn gael ei ddatrys gan Lywodraeth Cymru ac mae angen i'r Rheoliadau Cylch Gwaith gael eu hadolygu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Mae Rheoliadau Addysg (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 a rheoliadau llywodraethu ysgolion eraill wedi bod ar waith ers cryn amser ac mae angen eu hadolygu. Mae cynlluniau ar waith i adolygu'r holl reoliadau presennol sy'n cwmpasu'r fframwaith llywodraethu ysgolion er mwyn eu gwneud yn fwy perthnasol a hyblyg. Ystyrir diffinio cyfrifoldebau penaethiaid a llywodraethwyr ac awdurdodau lleol fel rhan o'r adolygiad hwn.

Gan ystyried diswyddo staff yn benodol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer pob ysgol ym mis Ionawr 2013 - Cylchlythyr 002/2013 'Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol', sy'n nodi'n glir rôl cyrrff llywodraethu yn y broses ddiswyddo. Bydd y diwygiadau i'r rheoliadau cylch gwaith yn egluro'r priod rolau.

Goblygiadau

Bydd y broses o adolygu newidiadau i reoliadau ac ymgynghori arnynt yn cymryd amser.

Adran 6: Hyfforddi llywodraethwyr

Cyflwynir yr argymhelliad hwn mewn chwe rhan;

Argymhelliad 5a – (tudalen 29): Dylai llywodraethwyr a chadeiryddion newydd gael eu mentora gan lywodraethwyr profiadol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Nid yw'r egwyddor y dylai cadeiryddion a llywodraethwyr newydd gael eu mentora gan lywodraethwyr mwy profiadol yn un newydd ac mae'r syniad hwn wedi cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraethwyr Cymru. Yr hyn sy'n allweddol i'w llwyddiant yw sefydlu system i nodi cronfa o lywodraethwyr da a fydd yn gallu cyflawni'r rôl hon. Mae hefyd angen gochel rhag gorlwytho'r llywodraethwyr hyn â chyfrifoldebau ychwanegol gan mai gwirfoddolwyr ydynt.

Goblygiadau

Byddai angen i swyddogion drafod yr argymhelliad hwn gydag awdurdodau lleol/consortia gan amlinellu pwy fyddai yn y sefyllfa orau i nodi a datblygu cronfa o 'fentor-lywodraethwyr', gan o bosibl weithio gyda Llywodraethwyr Cymru gan ddefnyddio ei rwydwaith o gymdeithasau llywodraethwyr.

Argymhelliad 5b - (tudalen 29): Dylai llywodraethwyr sy'n ymarferwyr arweiniol gynorthwyo cadeiryddion newydd (Os caiff argymhelliad adolygiad Hill ei dderbyn gan y Gweinidog)

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Fel gydag argymhelliad 5.a, os caiff yr opsiwn hwn yn adroddiad Hill ei fabwysiadu fe'i cefnogir mewn egwyddor ond mae hefyd angen gochel rhag gorlwytho'r llywodraethwyr hyn â chyfrifoldebau ychwanegol gan mai gwirfoddolwyr ydynt.
Goblygiadau
Os derbynnir yr argymhelliad hwn byddai angen ystyried y ffordd orau o weithredu cynllun ar gyfer nodi a rheoli rhaglen llywodraethwyr sy'n ymarferwyr arweiniol. Byddai gan awdurdodau lleol a chonsortia rôl allweddol yn hyn o beth.
Argymhelliad 5c - (tudalen 29): Ystyried hyfforddi corff llywodraethu cyfan neu glwstwr fel model ar gyfer darparu hyfforddiant
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyniwyd mewn egwyddor.
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Er ein bod yn cefnogi'r rhesymeg dros yr argymhelliad hwn, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am hyfforddi cyrff llywodraethu yn unol â Deddf Addysg 2002. Felly, mater i awdurdodau lleol/consortia yw'r ffordd orau o ddarparu'r hyfforddiant hwn. Mae ALLau yn cydnabod buddiannau hyfforddi corff llywodraethu cyfan neu glwstwr ac yn cefnogi egwyddor hynny, ond mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'w gallu cyfyngedig i ddarparu hyfforddiant yn y ffordd hon, gan fod yr argymhelliad yn cwmpasu pob math o hyfforddiant llywodraethwyr ac nid dim ond yr hyfforddiant gorfodol.
Goblygiadau
Bydd mabwysiadu system hyfforddi cyrff llywodraethu cyfan neu glystyrau fel yr unig ddull o ddarparu hyfforddiant yn arwain at oblygiadau i ALLau/consortia ac efallai na fydd modd ei gyflawni.
Argymhelliad 5d - (tudalen 29): Hunanwerthusiad ac adolygiad cyfnodol ar gyfer y corff llywodraethu a llywodraethwyr unigol
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyn mewn egwyddor
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Mae hunanwerthuso wrth wraidd fframwaith arolygu cyffredin Estyn a dyhead Llywodraeth Cymru yw y bydd pob corff llywodraethu yn gallu dangos yr effaith a gânt drwy broses hunanadolygu reolaidd, sydd wedi'i hymgorffori.
O ran asesu ac adolygu llywodraethwyr unigol, mae'r Grŵp wedi darparu templed yn Atodiad iv yn seiliedig ar adolygiad a ddefnyddiwyd gan Fwrdd Cymdeithas Dai. Mae'r enghraifft hon yn sail i broses hunanadolygu llywodraethwyr ond mae angen sicrhau nad yw llywodraethwyr yn teimlo dan bwysau i gwblhau'r adolygiad hwn, neu fod eu perfformiad unigol yn cael ei fonitro neu ei asesu oherwydd gallai hyn arwain at oblygiadau niweidiol o ran recriwtio a chadw llywodraethwyr.
Goblygiadau; amserlenni, materion ariannol a staffio
Bydd angen cyflwyno adnodd hunanadolygu llywodraethwyr Cymru gyfan yn ofalus a bydd angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gydweithio'n agos â phartneriaid yn Estyn, Llywodraethwyr Cymru a Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr, a manteisio ar eu harbenigedd, er mwyn sicrhau cysondeb â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a darparu meini prawf a mesurau

derbyniol sy'n sail i asesiadau llywodraethwyr.

Argymhelliad 5d - (tudalen 29): Dylai Llywodraeth Cymru greu templed newydd ar gyfer gwaith hunanwerthuso ac adolygu llywodraethwyr unigol a chyrff llywodraethu

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn mewn egwyddor

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Mae'r egwyddor y gellir gwella corff llywodraethu drwy broses hunanwerthuso corff llywodraethu yn gyson â Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn ac fe'i cydnabyddir gan Llywodraethwyr Cymru, ALlau a Llywodraeth Cymru.

O ran asesu ac adolygu llywodraethwyr unigol, mae'r Grŵp wedi darparu templed yn Atodiad iv yn seiliedig ar adolygiad a ddefnyddiwyd gan Fwrdd Cymdeithas Dai. Mae'r enghraifft hon yn rhoi'r sail i adnodd hunanadolygu llywodraethwyr ond mae angen sicrhau nad yw llywodraethwyr yn teimlo dan bwysau i gwblhau'r adolygiad hwn, neu fod eu perfformiad unigol yn cael ei fonitro neu ei asesu oherwydd gallai hyn arwain at oblygiadau niweidiol o ran recriwtio a chadw llywodraethwyr.

Goblygiadau; amserlenni, materion ariannol a staffio

Bydd angen cyflwyno adnodd hunanadolygu llywodraethwyr Cymru gyfan yn ofalus a bydd angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gydweithio'n agos â phartneriaid yn Estyn, Llywodraethwyr Cymru a Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr, a manteisio ar eu harbenigedd, er mwyn sicrhau cysondeb â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a darparu meini prawf a mesurau derbyniol sy'n sail i asesiadau llywodraethwyr.

Argymhelliad 5f - (tudalen 29): Cynhelir archwiliad sgiliau yn rheolaidd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Argymhelliad 5(dd) - Derbynnir y cysyniad bod cyrff llywodraethu yn cynnal archwiliad o sgiliau eu llywodraethwyr ac mae'n gysylltiedig ag argymhelliad 1 - y dylai cyrff llywodraethu gymryd camau i recriwtio llywodraethwyr â sgiliau addas. Mae'r Grŵp wedi cyflwyno enghraifft o archwiliad a ddefnyddiwyd gan Gymdeithas Llywodraethwyr Genedlaethol Lloegr sy'n fanwl iawn ond y gellid ei addasu.

Fodd bynnag, wrth godi proffil y fenter hon, rhaid sicrhau, wrth annog llywodraethwyr i gynnal archwiliad sgiliau a rhoi strategaeth ar waith i recriwtio llywodraethwyr sydd â sgiliau penodol fel profiad ym maes cyllid neu adnoddau dynol, nad yw Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gofynion a fyddai'n atal rhanddeiliaid rhag gwneud penodiadau neu etholiadau i'r corff llywodraethu.

Goblygiadau; amserlenni, materion ariannol a staffio

Bydd angen i swyddogion Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid o fewn Estyn, Llywodraethwyr Cymru a Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr awdurdodau lleol er mwyn llunio archwiliad sgiliau addas i'w fabwysiadu gan gyrrff llywodraethu ledled Cymru. Os bydd corff llywodraethu yn nodi bod angen sgiliau penodol arno, bydd hefyd angen ystyried sut y gallai corff llywodraethu gyflawni hyn. Bydd hyn yn gofyn am gynnal trafodaethau â'r diwydiant a busnesau (CBI a/neu BBaChau)

Adran 7: Clercod i'r cyrff llywodraethu

Argymhelliad 6 - (Tudalen 30): Er mwyn cydnabod rôl broffesiynol clercod, mae angen sicrhau bod eu swydd yn cael ei gwerthuso a'i hasesu gan gadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn mewn egwyddor. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn anodd ei weithredu o ystyried y ffyrdd amrywiol y cyflogir clercod.

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Cydnabuwyd ers tro fod rôl y cleric yn allweddol i effeithiolrwydd corff llywodraethu. Gall cleric sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n gallu cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd broffesiynol ac effeithlon a chynnig cyngor gweithdrefnol i gyrff llywodraethu wella perfformiad corff llywodraethu.

Dechreuodd yr hyfforddiant gorfodol newydd ar gyfer clercod ym mis Medi 2013 - bydd angen i bob cleric, oni bai ei fod yn Swyddog Cymorth Llywodraethwyr neu wedi'i gyflogi a'i hyfforddi gan yr ALI - fynychu'r hyfforddiant o fewn blwyddyn i'w penodi neu'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Felly, mae'n gwneud synnwyr na ddylai unrhyw werthusiad neu asesiad ystyrllon o'i rôl gael ei gyflawni nes ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant. Gan fod y pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr mewn cysylltiad rheolaidd â'r cleric, mae'n briodol mai nhw sy'n gwneud y dyfarniad.

Goblygiadau; amserlenni, materion ariannol a staffio

Byddai'r broses asesu hon yn briodol i glercod a gyflogir gan y corff llywodraethu drwy 'drefniant preifat'. Fodd bynnag, bydd angen i gyrff llywodraethu fod yn ofalus os oes ganddynt glerc sydd â contract cyflogaeth â'r ALI, naill ai am fod y cleric yn SCLI neu ei fod yn aelod o staff yr ysgol ac yn cyflawni rôl y cleric fel rhan o'i contract cyflogaeth. Efallai y bydd y cleric hyn eisoes yn destun proses 'rheoli perfformiad' gan yr ALI mewn perthynas â SCLI neu reolwr llinell y cleric yn yr ysgol sy'n debygol o fod y pennaeth.

Os gweithredir hyn, bydd angen i'r materion gael eu trafod ymhellach ag ALIau a chonsortia er mwyn pennu'r meini prawf asesu.

Adran 8: Gwybodaeth

Cyflwynir yr argymhelliad hwn mewn pedair rhan;

Argymhelliad 7a – (Tudalen 33): Dylai'r consortia rhanbarthol roi gwybodaeth i gyrff llywodraethu am berfformiad cymharol ac arfer da ledled Cymru

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn mewn egwyddor.

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad y dylai fod eglurder ynghylch y wybodaeth sydd ar gael i lywodraethwyr ac mae cynlluniau ar waith i adolygu'r wybodaeth.

Goblygiadau

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion, bydd swyddogion yn gweithio gydag ALIau a consortia er mwyn penderfynu pa wybodaeth sydd ar gael i lywodraethwyr a pha mor aml.

Argymhelliad 7b - (tudalen 33): Dylai fod eglurder ynghylch y wybodaeth sydd ar gael i lywodraethwyr gan awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Llywodraethwyr Cymru a Llywodraeth Cymru.
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyn
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Cydnabyddir bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth, canllawiau a chyngor gan sawl ffynhonnell a bod cryn dipyn o hyn yn cael ei ddyblygu'n aml. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ALLau, consortia a Llywodraethwyr Cymru er mwyn penderfynu pa wybodaeth sydd ar gael i lywodraethwyr a pha mor aml. Hefyd, ystyrir gwneud gwefannau Llywodraethwyr Cymru a Llywodraeth Cymru yn gliriach gyda dolenni perthnasol, er mwyn osgoi dyblygu gwybodaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweithio'n agos gyda Llywodraethwyr Cymru er mwyn adolygu cynnwys ei Llawlyfr a'r Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr er mwyn sicrhau na chaiff cyngor na gwybodaeth eu dyblygu.
Goblygiadau
Nid oes unrhyw oblygiadau i reoliadau. Goblygiadau o ran amser staff i adolygu gwybodaeth a chanllawiau a'u diwygio lle bo angen. Dylai fod gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gliriach o'r wybodaeth a'r gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraethwyr Cymru a chonsortia ac awdurdodau lleol
Argymhelliad 7c - (tudalen 33): Dylid sicrhau eglurder ynghylch y gwasanaethau a gynigir gan Llywodraethwyr Cymru
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyn
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad y dylai fod eglurder ynghylch y gwasanaethau a'r wybodaeth sydd ar gael i lywodraethwyr gan Llywodraethwyr Cymru. Disgwylir i Llywodraethwyr Cymru gael ei adolygu yn 2014 a fydd yn cynnwys adolygu'r gwasanaethau a gynigir a'r wybodaeth a ddarperir.
Goblygiadau
Bydd sicrhau bod Llywodraethwyr Cymru yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u diffinio'n glir yn osgoi unrhyw ddyblygu gan gyrff eraill ac yn helpu llywodraethwyr i gael gafael ar y wybodaeth a'r canllawiau cywir gan sefydliad sy'n cynrychioli eu buddiannau.
Argymhelliad 7d - (tudalen 33): Dylai Llywodraethwyr Cymru godi ymwybyddiaeth o'r corff hwnnw
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyn
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Gofynnwyd i Llywodraethwyr Cymru gynnwys yn ei raglen waith ar gyfer 2014-15 y camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn codi proffil y gwasanaethau a'r wybodaeth y caiff ei ariannu

gan Lywodraeth Cymru i'w darparu i lywodraethwyr ynghyd ag ymwybyddiaeth ohonynt.
Goblygiadau
Bydd angen i Lywodraethwyr Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia ar hyn er mwyn helpu i hysbysebu ei wasanaethau a'i fodolaeth.

Adran 9: Recriwtio llywodraethwyr

Cyflwynir yr argymhelliad hwn mewn tair rhan;

Argymhelliad 8a – (Tudalen 34): Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo rôl llywodraethwyr a chodi ymwybyddiaeth o lywodraethwyr ysgolion.
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyn
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Gall Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid o fewn ALLau, consortia a Llywodraethwyr Cymru ynghylch ymgyrch recriwtio a chyhoedduswydd er mwyn denu llywodraethwyr newydd.
Goblygiadau
Y gobaith yw y dylai ymgyrch cyhoedduswydd sydd wedi'i chynllunio'n ofalus godi proffil llywodraethwyr a helpu i recriwtio, ond ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwneud hyn nes ar ôl i'r adolygiad o'r fframwaith llywodraethu gael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y meini prawf cymhwys ar gyfer pob categori o lywodraethwyr wedi'u pennu.

Argymhelliad 8b - (tudalen 34): Dylid cynnal ymgyrch recriwtio er mwyn denu llywodraethwyr newydd
Ymateb Llywodraeth Cymru
Derbyn
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Gall Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid o fewn ALLau, consortia a Llywodraethwyr Cymru ynghylch ymgyrch recriwtio a chyhoedduswydd er mwyn denu llywodraethwyr newydd a hyrwyddo i gyflogwyr y buddiannau y gallant hwy a'u cyflogeion eu profi wrth feithrin eu sgiliau fel llywodraethwyr ysgolion.
Goblygiadau
Y gobaith yw y dylai ymgyrch cyhoedduswydd sydd wedi'i chynllunio'n ofalus godi proffil llywodraethwyr a helpu i recriwtio, ond ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwneud hyn nes ar ôl i'r adolygiad o'r fframwaith llywodraethu gael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y meini prawf cymhwys ar gyfer pob categori o lywodraethwyr wedi'u pennu.

Argymhelliad 8c - (tudalen 34): Dylai'r consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru gyflwyno gwobr Corff Llywodraethu'r Flwyddyn'.
Ymateb Llywodraeth Cymru
Gwrthod
Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg
Byddai'n anodd pennu a diffinio'r meini prawf a'r asesiad o ran yr hyn sy'n gyfystyr â chorff

llywodraethu da neu effeithiol a byddai'n anodd sicrhau cyfle cyfartal. Er enghraifft, os yw'r gystadleuaeth hon yn agored i bob corff llywodraethu, sut y byddai dyfarniadau'n cael eu gwneud yn erbyn cyrff llywodraethu a oedd wedi cyflawni Gwobr Efydd Nod Ansawdd Llywodraethwyr Cymru a'r rhai nad oeddent, ond y gellid eu hystyried yn gyrff llywodraethu da o hyd. Os cyfyngwn y gystadleuaeth i gyrff llywodraethu sydd wedi cyflawni'r Wobr Efydd rydym yn difreinio llawer o gyrff llywodraethu, ond petai'n cael ei gyflwyno, byddai'n gwneud synnwyr i gyfuno gwobr corff llywodraethu'r flwyddyn â'r Nod Ansawdd.

Goblygiadau

Byddai'r costau gweinyddol a'r costau staff i'r consortia a Llywodraeth Cymru yn uchel iawn er mwyn gweithredu cynllun o'r fath.

Adran 10: Gwella cydnabyddiaeth corff llywodraethu

Cyflwynir yr argymhelliad hwn mewn tair rhan;

Argymhelliad 9a – (Tudalen 36): Dylai pob corff llywodraethu fod yn gweithio tuag at Wobr Efydd Nod Ansawdd Llywodraethwyr Cymru (ac Arian ac Aur wrth iddynt ddatblygu ymhellach)

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn mewn egwyddor yn betrusgar.

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Llywodraethwyr Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i dreialu'r gwobrau efydd ac arian. Cefnogir y Gwobrau yn gyffredinol gan mai dyma un o Ddangosyddion Perfformiad y sefydliad. Hefyd, mae'r Gweinidog wedi dangos ei gefnogaeth i'r wobwr Efydd yn gyhoeddus oherwydd cyfeirir ati yn ei areithiau i lywodraethwyr.

Mae'r meini prawf a geir yn adnodd hunanwerthuso lefel Efydd y Nod Ansawdd yn seiliedig ar ba mor dda y mae corff llywodraethu yn cyflawni ei ddyletswyddau sylfaenol fel y nodir yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Er enghraifft, a gaiff yr agendâu eu dosbarthu yn unol â therfynau amser gofynnol; a oes gan y corff llywodraethu'r holl bolisiau gofynnol ac ati. Mae'r adnodd gwerthuso ar gael ar wefan Llywodraethwyr Cymru at ddefnydd unrhyw gorff llywodraethu, ond er mwyn cyflawni'r wobwr Efydd mae'n rhaid i gorff llywodraethu gofrestru ei fuddiant a chyflwyno'r ddogfennaeth ofynnol a asesir gan Llywodraethwyr Cymru er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd a bod ansawdd yr asesiadau'n gyson ac yn cael eu cynnal yn gwbl gywir.

Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch gallu Llywodraethwyr Cymru i gyflwyno'r Nod Ansawdd ledled Cymru a'r amserlen ar gyfer gwneud hynny. Ar hyn o bryd, Llywodraethwyr Cymru sy'n penderfynu a yw'r dystiolaeth a ddarperir gan gorff llywodraethu yn bodloni'r meini prawf, a hynny'n gyfyngedig, sy'n golygu mai dim ond ychydig o gyrff llywodraethu y gellir eu hasesu ar y tro. Ceir hefyd broblem o ran gallu ar lefel consortia gan fod yn rhaid i'r Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr, ar y cam Efydd, wirio'r ceisiadau a sicrhau bod yr holl dystiolaeth wedi'i darparu cyn rhoi'r dystiolaeth i Llywodraethwyr Cymru i'w hasesu. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi trafod y posibilrwydd y gallai Llywodraethwyr Cymru gynnwys a hyfforddi unigolion eraill (aelodau o'r Pwyllgor Rheoli efallai) er mwyn helpu gyda'r asesiadau fel bod mwy o gyrff llywodraethu yn gallu cyflawni'r wobwr.

Ar gyfer y gwobrau Arian ac Aur mae'r broses asesu yn cynnwys aelod o Llywodraethwyr Cymru yn ymweld ag ysgol am ddiwrnod er mwyn siarad â chadeiryddion llywodraethwyr am eu rôl

wrth wella perfformiad, archwilio tystiolaeth a gwneud dyfarniad. Mae hyn yn llafurus i gyflogeion Llywodraethwyr Cymru. Er mwyn sicrhau bod y Nod Ansawdd a'r gwobrau yn parhau i fod yn berthnasol, bwriedir i gyrff llywodraethu orfod gwneud cais am y gwobrau hyn bob pedair blynedd. O ystyried nifer yr ysgolion yng Nghymru, bydd hyn yn cymryd llawer rhy hir i fod yn broses hunanwerthuso effeithiol a chydnyddedig.

Yn dilyn y cynlluniau peilot, bydd cyfle i'w gwerthuso ac, ar y cyd â Llywodraethwyr Cymru, Consortia ac awdurdodau lleol, ystyried a ddylai'r cynllun gael ei gyflwyno ledled Cymru a'u priod rolau yn y gwaith gwerthuso.

Goblygiadau

Er mwyn i'r Nod Ansawdd gael ei gydnabod a'i dderbyn fel proses hunanwerthuso sy'n gwella effeithiolrwydd cyrff llywodraethu, mae angen cynyddu nifer y cyrff llywodraethu sy'n cyflawni'r gwobrau yn sylweddol. Mae swyddogion wedi gofyn i Llywodraethwyr Cymru am Gynllun Busnes sydd wedi'i gostio'n llawn ac sy'n dangos yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Nod Ansawdd, ynghyd â'r arian a'r staff gofynnol. Unwaith y bydd gennym y wybodaeth hon, gall swyddogion ystyried dyfodol y Nod Ansawdd.

Er mwyn i'r Nod Ansawdd gael ei dderbyn fel proses gwella ysgolion sy'n arwain at gyrff llywodraethu mwy effeithiol, mae angen iddo gael ei gefnogi gan awdurdodau lleol a chonsortia y gellid cysylltu â hwy er mwyn helpu i ariannu'r gwaith o'i gyflwyno. Mae hefyd angen i'r cysyniad gael ei ymgorffori a'i integreiddio'n llawn yn fframwaith arolygu presennol Estyn.

Argymhelliad 9b - (tudalen 36): Dylai Llywodraethwyr Cymru weithio gyda'r Consortia neu awdurdodau lleol er mwyn helpu gyda'r broses o asesu cyrff llywodraethu unigol ar gyfer y gwobrau

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn o ran egwyddor.

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Fel y nodwyd yn argymhelliad 9 (a), ar hyn o bryd Llywodraethwyr Cymru sy'n gwbl gyfrifol am asesu a dyfarnu'r ceisiadau am y Wobr Efydd. Rydym wedi cynghori Llywodraethwyr Cymru, er mwyn i'r fenter hon fod yn llwyddiannus, fod angen mwy o staff i brosesu'r ceisiadau'n gyflymach a sicrhau bod mwy o gyrff llywodraethu'n cyflawni'r wobr. Rydym yn ei annog i weithio'n agosach gyda'r consortia gyda'r nod o hyfforddi'r staff a fydd yn darparu cymorth. Hyd y gwyddom, dim ond 80 o ysgolion dros gyfnod o dair blynedd sydd wedi cael y wobr.

Goblygiadau; amserlenni, materion ariannol a staffio

Mae Llywodraethwyr Cymru wedi darparu'r Cynllun Busnes ar gyfer cyflwyno'r Nod Ansawdd. O ystyried yr arian sydd eisoes wedi cael ei wario ac mai dim ond 80 o ysgolion sydd wedi cael y wobr Efydd, rydym yn parhau i bryderu ynghylch faint o amser y gallai hyn ei gymryd, y costau dan sylw, a fyddai'n parhau bob blwyddyn wrth i gyrff llywodraeth ail-ymgeisio am y gwobrau, ac adnoddau staffio Llywodraethwyr Cymru i gyflawni hyn mewn cyfnod rhesymol o amser.

Argymhelliad 9c - (tudalen 36): Dylai Llywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o'r cynllun gwobrau yn fwy cyffredinol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Derbyn mewn egwyddor yn betrusgar

Cyngor i'r Gweinidog/Cabinet a rhesymeg

Nawr ein bod wedi derbyn y Cynllun Busnes gan Llywodraethwyr Cymru sy'n nodi'r costau a'r adnoddau sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r Nod Ansawdd, gallwn wneud dyfarniad ynghylch a all y cynllun gael ei gyflwyno ledled Cymru a'r ffordd orau o wneud hynny. Unwaith y gwneir y penderfyniad hwnnw, gallwn ystyried y ffyrdd gorau o godi ymwybyddiaeth o'r cynllun.

Goblygiadau; amserlenni, materion ariannol a staffio

Os penderfynir cefnogi'r Nod Ansawdd, byddai angen inni gydweithio ag awdurdodau lleol a chonsortia er mwyn dosbarthu gwybodaeth a deunyddiau i ysgolion. Gellir hefyd gynnwys erthygl yng nghylchlythyrau Dysg.